



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Foxhunters Care Community

**Ffordd Iberis
Llan-ffwyst
Y Fenni
NP7 9LQ**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cyhoeddi

Dydd Iau, 16 Mai 2019

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Foxhunters Care Communit wedi'i leoli ar gyrion Y Fenni, Sir Fynwy. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i roi cymorth i bobl y mae angen gofal preswyl neu ofal nyrsio arnynt, gan gynnwys preswylwyr sy'n dioddef o ddementia. Mae lle i 70 o breswylwyr yn y cartref, ond gan nad yw ond wedi bod ar agor ers mis Tachwedd 2018, mae 14 o breswylwyr yno ar hyn o bryd, gan gynnwys un person sy'n derbyn gofal seibiant. Dormy Care Communities Limited sy'n berchen ar y cartref. Mae'r cwmni wedi enwebu unigolyn cyfrifol i weithredu ar ei ran.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Hwn oedd arolygiad llawn cyntaf y cartref, ar ôl cychwyn y gwasanaeth ym mis Tachwedd 2018 a'i gofrestrriad o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae systemau cadarn ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n fanwl. Mae'r bobl yn mwynhau gofal o ansawdd uchel mewn amgylchedd cysurus a chyfoes sydd wedi'i gynllunio'n benodol ag anghenion y bobl mewn golwg. Mae pwyslais mawr ar sicrhau bod gweithgareddau ystyrlon a therapiwtig ar gael i'r bobl.

2. Gwelliannau

Ni nodwyd unrhyw welliannau gan mai hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gynhaliwyd gan AGC.

3. Gofynion ac argymhellion

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. Mae adran pump yr adroddiad yn nodi ac yn manylu ar yr argymhellion a wnaed mewn perthynas â'r gwasanaeth. Gwnaed argymhellion mewn perthynas â gweithio gyda therapyddion galwedigaethol cymunedol, sesiynau goruchwylio unigol ar gyfer staff newydd a hysbysiadau i AGC.

1. Llesiant

Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn fodlon eu byd. Mae'r bobl yn mwynhau deiet amrywiol a chytbwys. Maent yn mwynhau cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda phwyslais ar ddewis, yn enwedig mewn perthynas â'r gweithgareddau a ddarperir. Mae cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau yn y cartref ac yn y gymuned.

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn hapus yn byw yn y cartref. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â chwe pherson a chadarnhaodd bob un ohonynt eu bod yn hapus, a dywedodd un person wrthym, *"It's excellent here. Anything you want, they will get it for you within reason"*. Er bod y cartref yn parhau i gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu derbyn, gwelsom ei fod yn gwneud hyn mewn ffordd raddol ac ystyriol, a'i fod yn ystyried anghenion o ran pa mor gydnaws oeddent ag anghenion darpar breswylwyr ag anghenion y bobl sydd eisoes yn byw yn y cartref, er mwyn sicrhau bod profiadau'r bobl yn aros yn gadarnhaol. Wrth drafod â'r rheolwr, rhoddwyd gwybod inni nad oedd unrhyw ardaloedd "nyrsio" na "phreswyl" penodol, ond bod y bobl yn cael cynnig ystafelloedd ger pobl eraill ag anghenion gofal tebyg, lle y bo hynny'n bosibl. Gwelsom hefyd fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd gadarnhaol drwy'r cartref, a'u bod yn eistedd i gymryd eu hegwyll gyda'r preswylwyr ac yn sgwrsio â nhw drwy'r amser. Rydym o'r farn bod y bobl wedi ymgartrefu ac yn fodlon eu byd.

Caiff y bobl faethiad o safon uchel a hynny o ran ei ansawdd a maint y prydau. Gwelsom fwydleni wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r cartref, yn y derbynfeydd ac yn yr ystafelloedd bwyta, ac roeddent yn rhoi manylion y bwydydd a drefnwyd ar gyfer y dydd, a oedd hefyd yn cynnig dewisiadau amgen. Dywedodd un person wrthym, *"You can't fault the food... so much variety"*. Dywedodd y rheolwr wrthym y byddai aelod o'r staff yn cael ei bennu i bob ardal fwyta a ddefnyddir er mwyn helpu'r bobl â dewisiadau bwyd, yn ogystal â'r staff gofal sydd ar ddyletswydd. Gwelsom fod staff y gegin wedi llunio ffeiliau a oedd yn manylu ar hoff a chas fwydydd pob unigolyn, ynghyd â hysbysfwrdd yn y gegin yn nodi alergeddau a deietau arbennig. Gwelsom fod y bobl yn y lolfeydd yn cael cynnig diodydd rhwng prydau bwyd. Hefyd, gwelsom fod y lolfa goffi gyda dewis o ddiodydd a chacennau ar gael i'r bobl ar unrhyw adeg, ac roedd gan bob ardal fwyta fainc bicnic fach yn arddangos creision a byrbrydau, yn ogystal â ffrwythau ffres. Gwelsom fod pwysau'r bobl yn sefydlog ar y cyfan a bod y staff yn eu monitro drwy system electronic a fyddai'n rhoi rhybudd os oedd pwysau'n gostwng neu os oedd lefelau hylif y bobl yn gostwng, gan ysgogi camau gweithredu. Rydym o'r farn bod y staff yn goruchwylio anghenion maeth y bobl mewn ffordd gadarn.

Mae pwyslais cadarn ar sicrhau bod gweithgareddau ar gael i'r bobl. Gwelsom fod gweithgareddau ar gael ym mhob rhan o'r cartref, a oedd yn amrywio o gemau bwrdd, posau jig-so, cyfarpar synhwyrdd, a chelf a chreffft. Roedd y cartref wedi penodi dau gydgyssylltydd gweithgareddau sy'n gweithio saith diwrnod yr wythnos rhyngddynt i sicrhau bod gweithgareddau ar gael ar y penwythnos hefyd. Gwelsom fod amserleni ar gyfer gweithgareddau a drefnwyd, ac roedd y rhain yn cynnwys cyfleoedd unigol i'r bobl hynny a oedd yn dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Dywedodd y bobl

wrthym, "*There is always something going on*". Gwnaethom siarad ag un cydgysylltydd gweithgareddau a ddywedodd wrthym fod y staff gofal hefyd yn ymrwymedig i ddarparu gweithgareddau, ac y bwriad oedd y byddai'r staff yn cynnal mwy o weithgareddau wrth i nifer y preswylwyr gynyddu. Nodwyd gennym fod y preswylwyr yn cael cyfleoedd i fynd ar allan ac am deithiau dydd, ac y darperir bws mini a char ar gyfer hyn. Dywedodd y cydlynnydd gweithgareddau wrthym fod asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer pob unigolyn a oedd yn dymuno mynd ar deithiau, a bod ffisiotherapydd y gwasanaeth yn asesu'r bobl, lle y bo angen. Ni welsom yr asesiadau risg. Nid oedd therapyddion galwedigaethol wedi bod yn rhan o'r broses asesu cyn hynny, ond gwnaethom argymhell y dylid ystyried hyn lle y bo'n briodol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cyfrannu at drefnu teithiau a'u bod yn mwynhau hyn yn fawr. Rydym o'r farn bod digon o gyfleoedd ar gael i'r bobl fwynhau amrywiaeth o weithgareddau, a bod y staff yn ymgynghori â nhw ac yn parchu eu dewisiadau.

2. Gofal a Datblygiad

Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac sydd wedi cael hyfforddiant digonol i gyflawni eu rolau'n fedrus. Defnyddir system gofnodi gynhwysfawr i fonitro anghenion gofal y bobl. Bydd aelodau newydd o'r staff gofal yn cael budd o gyfleoedd cysgodi yn ystod eu cyfnod sefydlu.

Ein canfyddiadau

Caiff y bobl eu cefnogi'n ddigonol gan staff cymwys. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y darparwr wedi cyflogi 50 o aelodau o staff, er nad yw'r cartref yn llawn eto. Dywedodd y rheolwr wrthym fod hyn yn fwiadol i sicrhau bod y staff yn gyfarwydd â'r cartref ac wedi sefydlu arferion gwaith er mwyn sicrhau'r profiad gorau i'r bobl sy'n symud i'r cartref. Edrychwyd ar ffeiliau tri aelod o'r staff a nodwyd bod y gweithdrefnau recriwtio'n drylwyr. Roeddem yn ymwybodol o'r ffaith bod rhai pryderon wedi codi'n ddiweddar ynghylch y gymhareb o nyrsys iechyd meddwl cofrestredig i nyrsys cyffredinol cofrestredig. Gwelsom fod yr unigolyn cyfrifol wedi ystyried hyn ac wedi rhoi camau gweithredu ar waith i recriwtio nyrsys cyffredinol cofrestredig ychwanegol a darparu hyfforddiant arbenigol i'r staff cymwys presennol i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd. Edrychom ar y matrices hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r staff a gwelsom fod yr hyfforddiant yn gyfredol. Gwelsom fod pob aelod o'r staff a gyflogwyd wedi cwblhau rhaglen sefydlu gyda'i gilydd a barodd pythefnos cyn i'r cartref agor er mwyn datblygu cydberthnasau tîm a sicrhau bod yr hyfforddiant gorfodol yn cael ei gwblhau. Dywedwyd wrthym hefyd fod sesiynau hyfforddi wedi cael eu trefnu ar gyfer rhai aelodau o'r staff a oedd wedi ymuno'n ddiweddarach. Gwnaethom drafod y posibilrwydd y byddai'r staff a oedd yn ymuno â'r tîm ers i'r cartref agor hefyd yn cael budd o gyfleoedd cysgodi wedi'u dogfennu fel rhan o'u sesiynau sefydlu, a chytunwyd y byddai hyn yn digwydd. Rydym o'r farn bod y lefelau staff ac addasrwydd y staff yn cael eu monitro, a bod newidiadau'n cael eu rhoi ar waith pan fo angen er mwyn cefnogi'r preswylwyr a diwallu ei hanghenion.

Mae'r staff gofal yn mwynhau eu rolau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Gwnaethom siarad â phedwar aelod o'r staff yn ystod ein hymweliad a ddywedodd wrthym, "*I love it here*" a "*The team is fabulous*". Gwelsom fod y staff yn dangos y brwdfrydedd hwn wrth iddynt ryngweithio â'r preswylwyr, a'u bod yn gwneud hyn mewn ffordd barchus a chalonogol yn gyson. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu mynd at unrhyw aelod o'r tîm rheoli pe bai unrhyw ymholiadau. Gwelsom fod bron pob aelod o'r staff wedi cael sesiwn goruchwylio mewn modd amserol yn unol â'r rheoliadau; ond gwnaethom argymhell y gallai'r staff newydd gael budd o sesiynau cymorth ychwanegol yn ystod wythnosau cyntaf eu cyflogaeth i'w helpu i setlo ac i roi sicrwydd iddynt. Cytunwyd y byddai hyn yn fuddiol. Gwelsom fod y staff yn ddiwyd wrth gofnodi ymyriadau gofal. Roedd y rhain yn cael eu storio ar ddyfeisiau llaw ac yn rhoi tystiolaeth weledol o bryd y cynhaliwyd ymyriadau gofal, a hefyd yn monitro amserau ymateb a champau gweithredu'r staff. Rydym o'r farn bod y staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn cael cymorth da i ddarparu gofal o safon, a'u bod yn gwneud gwelliannau i'r ffordd y darperir y gofal yn ôl yr angen.

3. Yr Amgylchedd

Crynodeb

Mae amgylchedd y cartref wedi'i adeiladu'n benodol gydag anghenion y preswylwyr mewn golwg, ac mae wedi'i ddodrefnu a'i gynnal i safon uchel iawn. Gan fod y cartref yn newydd, ni fu angen gwneud gwaith gwasanaethu rheolaidd ar rai agweddau ar y gwaith cynnal a chadw eto.

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cysurus a deniadol sydd wedi'i gynllunio'n benodol gydag anghenion y preswylwyr mewn golwg. Gwelsom fod y cartref wedi'i adeiladu'n bwrpasol, a'i fod yn cynnwys ardaloedd eang a hygyrch. Nodwyd gennym y rhoddwyd sylw craff i'r manylion er mwyn creu ymdeimlad cartrefol a moethus. Roedd y cartref yn gyfoes o ran ei ddyluniad, yn olau ac yn agored, ac roedd y tymheredd yn briodol. Crëwyd ardaloedd cymunedol penodol yn y cartref, gan gynnwys campfa â chyfleusterau aer dymheru gydag amrywiaeth o gyfarpar, lolfa goffi ac ardal bar â sgrin deledu fawr. Gwelsom fob poteli alcohol a ddefnyddiwyd fel addurniadau wedi'i llenwi dŵr lliw er mwyn sicrhau na fyddai'r bobl yn cael eu niwed pe baent yn gallu cael gafael ar y rhain ar unrhyw adeg. Roedd salon trin gwallt pwrpasol ger y dderbynfa lle gallai'r preswylwyr drefnu apwyntiad i gael amrywiaeth o driniaethau, a gwelsom fod yr holl ddeunyddiau'n cael eu storio mewn cypyrddau dan glo. Gwelsom fod byrbrydau a pheiriannau dŵr poeth ac oer ar gael yn yr ardaloedd bwyta. Cawsom dawelwch meddwl y byddai aelodau o'r staff ym mhob ardal bob amser i sicrhau y gallai'r bobl ddefnyddio'r ardaloedd hyn yn ddiogel pan fyddai'r cartref yn brysurach. Gwelsom fod nifer o ardaloedd gweithgareddau yn y cartref, a oedd yn cynnwys posau jig-so, gemau, a chelf a chreffft. Roedd cyfeiriadau darluniadol at weithgareddau a drefnwyd wedi'u harddangos yn y dderbynfa. Gwelsom fod yr ardd yn wastad ac roedd gwelyau plannu wedi'u codi wedi'u gosod i annog y preswylwyr a oedd yn mwynhau garddio. Gwelsom hefyd ystafell breifat ar gyfer teuluoedd a oedd yn ymweld â'r preswylwyr, a oedd yn cynnwys bwrdd bwyta ac ardal dawel. Roedd arwyddion yn cael eu harddangos yn glir drwy'r cartref, a rheini'n Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym o'r farn bod y cartref wedi'i gynllunio a'i addurno i safon ragorol.

Anogir y bobl i ymgyfarwyddo a'u hamgylchedd. Gwelsom fod y bobl wedi personoli eu hystafelloedd yn unol â'u chwaeth unigol. Yn ogystal, roedd blychau cof wedi'u goleuo ger pob ystafell, ac roedd y bobl wedi ychwanegu ffotograffau a phethau cofiadwy eraill atynt. Gwelsom y rhoddwyd dewis i'r bobl o ran eu gofod preifat unigol.

Caiff diogelwch y bobl ei gynnal. Gwelsom fod ymarferion tân wedi cael eu cynnal. Roedd yr holl gyfarpar wedi'i osod o'r newydd o fewn y chwe mis diwethaf; felly ni fu unrhyw waith gwasanaethu ar gyfarpar eto, megis cyfarpar codi a chario, clychau galw neu gyfarpar tân. Byddwn yn ystyried p'un a roddwyd hyn ar waith ar adeg yr arolygiad nesaf. Rydym o'r farn bod y cyfarpar a'r amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da.

4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Crynodeb

Mae'r staff yn goruchwyllo pob agwedd ar y cartref yn gadarn ac mae'r ffordd y darperir y gofal yn cael ei monitro'n agos. Mae pwyslais ar gynnal dealltwriaeth o brosesau sicrhau ansawdd. Rhoddir gwybod i'r asiantaethau allanol am ddigwyddiadau adroddadwy yn brydlon ar y cyfan.

Ein canfyddiadau

Mae'r gwasanaeth yn cael budd o systemau clir sy'n hyrwyddo prosesau goruchwyllo cynhwysfawr ar bob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau clir ar waith er mwyn archwilio'r ffordd y darperir y gofal, ac i nodi unrhyw themâu a materion sydd angen sylw o bosibl. Gwelsom fod systemau electronig yn cael eu defnyddio a oedd yn annog y staff i ddiweddarau gwybodaeth yn brydlon ac yn rhoi gwybod i'r tîm rheoli am unrhyw faterion. Roedd y cofnodion rhoi meddyginiaethau hefyd yn cael eu cofnodi'n electronig, ac roedd y system yn gallu nodi unrhyw anghysondebau'n hawdd, megis pan oedd preswylwyr wedi gwrthod cymryd meddyginiaeth. Byddai'r system wedyn yn amlygu pryd y byddai angen ceisio gwneud hyn eto, gan ei gwneud hi'n haws i reolwyr oruchwyllo'r system. Gwelsom fod archwiliadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd, gan gynnwys archwiliadau o gwmpadau, meddyginiaeth, ac urddas a pharch. Trafodwyd rhai dogfennau gofal y gellid gwneud mân newidiadau iddynt er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch anghenion gofal y bobl, ond mae'r systemau'n gadarn ac yn rhoi digon o gyfleoedd i oruchwyllo'r ffordd y darperir y gofal.

Rhoddir ystyriaeth dda i sicrhau ansawdd yn y cartref. Gwelsom fod damweiniau a digwyddiadau'n cael eu cofnodi'n unigol ac ar y cyd, a phan fod digwyddiadau wedi codi fwy nag unwaith, cymerwyd camau gweithredu, megis atgyfeiriad at y tîm cwmpadau i breswyllydd a oedd wedi cwmpo sawl gwaith. Nodwyd gennym fod cwynion yn cael eu cofnodi ac y gweithredir arnynt yn unol â'r gofynion rheoleiddio ac fel y'u diffinnir yn natganiad o ddiben y cartref, gan gynnwys cwynion llafar a sylwadau a dderbyniwyd drwy flwch awgrymiadau'r cartref. Gwelsom fod un newid wedi bod o ran yr aelodau uwch o'r staff a nodwyd yn y datganiad o ddiben, a diwygiwyd hyn ar unwaith. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd staff, cyfarfodydd preswylwyr a chyfarfodydd perthnasau a gynhaliwyd, a nodwyd bod camau wedi'u cymryd yn dilyn sylwadau a godwyd. Soniodd un preswyllydd nad oedd llawer i'w wneud gyda'r nos ac roedd y cydlynnydd gweithgareddau wedi cymryd camau gweithredu drwy ddyfeisio rhestr o gwisiau a gweithgareddau gyda'r nos i'r staff gofal eu darparu. Felly, gwelsom nid yn unig fod y cartref yn ystyried sicrwydd ansawdd, ond hefyd yn ymateb iddo.

Mae'r arweinyddiaeth yn ystyriol. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y broses o dderbyn y bobl i'r cartref yn cael ei monitro a'i chynllunio'n raddol gan ystyried y preswylwyr newydd, darpar breswylwyr a phreswylwyr presennol. Rydym o'r farn bod y dull hwn yn ystyriol ac yn sensitif.

Rhennir gwybodaeth â sefydliadau eraill, gan gynnwys materion diogelu a hysbysiadau i AGC. Nodwyd un digwyddiad diweddar iawn nad oedd y wybodaeth amdano wedi'i throsglwyddo i AGC eto, ac wrth drafod, argymhellwyd y dylai'r tîm rheoli ymgyfarwyddo â'r rheoliadau newydd er mwyn bod yn hyderus ynghylch beth fyddai'n cyfrif fel digwyddiad

adroddadwy. Cawsom ein sicrhau y byddai'r cartref yn mynd i'r afael â hyn ar unwaith ac y byddai'r hysbysiad perthnasol yn cael ei gwblhau. Gwelsom fod ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol yn digwydd yn rheolaidd, yn unol â'r gofynion rheoleiddio. Felly, rydym o'r farn bod trefniadau arwain a rheoli digonol yn y gwasanaeth ar y cyfan.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dyma'r tro cyntaf i'r gwasanaeth hwn gael ei arolygu. Felly, nid oes unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio ar hyn o bryd.

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.

Gwnaed yr argymhellion canlynol:

- Bydd y staff newydd yn cael budd o gyfnodau cysgodi wedi'u dogfennu yn ystod eu cyfnod sefydlu, a sesiwn oruchwylio gynnar i hyrwyddo arfer da.
- Dylai'r personau cofrestredig ymgysgu â'r rheoliadau i sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau hysbysadwy yn cael eu hadrodd i AGC mewn modd amserol.
- Dylid cyfeirio cleifion at therapyddion galwedigaethol cymunedol yn brydlon er mwyn asesu anghenion y bobl sy'n dymuno defnyddio cludiant cymunedol, os oes angen.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Gwnaeth un arolygydd gynnal ymweliad dirybudd â'r cartref ar 19 Mawrth 2019, rhwng 8.30 a 15.40. Cynhaliwyd yr arolygiad yn gynharach na'r bwriad yn dilyn pryder diogelu a rannwyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Yn ystod yr arolygiad, gwelwyd bod y cartref wedi cydnabod y materion a nodwyd yn y pryder a'i fod yn mynd i'r afael â'r materion hyn drwy gyflogi aelodau o staff ychwanegol, cynnal hyfforddiant ychwanegol a gweithio'n agosach gyda'r timau nyrsio cymunedol.

Defnyddiwyd y fethodoleg ganlynol i lunio'r adroddiad hwn:

- Trafodaeth â saith person sy'n byw yn y cartref.
- Trafodaeth â rheolwr y cartref.
- Trafodaethau â phedwar aelod o'r staff sy'n gweithio yn y cartref.
- Arsylwi ar arferion gofal yn y cartref
- Astudio amrywiaeth o ddogfennaeth a ddelir yn y cartref, gan gynnwys y datganiad o ddiben, cwynion a chanmoliaethau a chofnodion damweiniau a digwyddiadau'r gwasanaeth.
- Astudio cofnodion cyfarfodydd preswylwyr a chyfarfodydd perthnasau.
- Astudio dogfennaeth gofal chwe unigolyn.
- Astudio tri ffeil recriwtio.
- Arsylwi ar bob ardal o'r cartref.
- Ystyried y ffeiliau cynnal a chadw.
- Dosbarthwyd holiaduron i'r preswylwyr, eu perthnasau a'r staff; ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd unrhyw holiaduron wedi cael eu dychwelyd.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal
Darparwr Gwasanaeth	Dormy Care Communities Ltd
Rheolwr	Mae'r rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	70
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gynhaliwyd gan AGC
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	19/03/2019
Iaith weithredol y gwasanaeth	Y ddwy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg ac mae gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
Gwybodaeth Ychwanegol:	